# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 2

COMISIYNYDD Y GYMRAEG

*Swyddogaethau*

### 7 Ymholiadau

(1) Caiff y Comisiynydd gynnal ymholiad i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i is-adrannau (3) i (5).

(3) Nid yw is-adran (1) yn awdurdodi'r Comisiynydd i gynnal ymholiad mewn achos—

- (a) lle y caiff y Comisiynydd, neu lle y mae'n rhaid iddo, gynnal ymchwiliad safonau o dan Bennod 8 o Ran 4, neu
- (b) lle y mae'r Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad o dan Ran 5 (nad yw'n ei derfynu).

(4) Nid yw is-adran (1) yn awdurdodi'r Comisiynydd i gynnal ymholiad i'r methiant, gan un neu ragor o bersonau penodol, i gydymffurfio ag un gofyniad perthnasol neu ragor.

(5) Nid yw is-adran (1) yn awdurdodi'r Comisiynydd i gynnal ymholiad i'r ymyrraeth, gan un neu ragor o bersonau penodol, â'r rhyddid i gyfathrebu yn Gymraeg (ond gweler Rhan 6 am bŵer i ymchwilio i ymyrraeth benodol â'r rhyddid hwnnw).

(6) Nid yw is-adran (4) neu (5) yn atal y Comisiynydd rhag ystyried ymddygiad un neu ragor o bersonau penodol pan fydd yn cynnal ymchwiliad—

- (a) i fethiant i gydymffurfio â gofynion perthnasol, neu
- (b) i ymyrraeth â'r rhyddid i gyfathrebu yn Gymraeg.

(7) Caiff y Comisiynydd—

- (a) terfynu, neu
- (b) atal,

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/12/2020.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 7. (See end of Document for details)*

ymholiad, neu unrhyw agwedd ar ymholiad.

(8) Os bydd y Comisiynydd yn ystod ymholiad yn dechrau amau y gall person fod wedi methu â chydymffurfio ag un gofyniad perthnasol neu ragor—

(a) wrth iddo barhau â'r ymholiad, rhaid i'r Comisiynydd, i'r graddau y bo'n bosibl, osgoi ystyried ymhellach a yw'r person wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion ai peidio,

(b) caiff y Comisiynydd gychwyn ymchwiliad i'r cwestiwn hwnnw o dan Ran 5, ac

(c) caiff y Comisiynydd ddefnyddio gwybodaeth neu dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymholiad at ddibenion yr ymchwiliad.

(9) Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth atodol ynglŷn ag ymholiadau.

(10) Yn yr adran hon mae i gyfeiriad at fethiant i gydymffurfio ag un gofyniad perthnasol neu ragor yr un ystyr ag yn Rhan 5.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 7(1)(3)(a)(5)(7)(9) mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2012/969, **ergl. 2(d)**

**I3** A. 7(2)(6) mewn grym ar 1.4.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/969, **ergl. 2(d)**

**I4** A. 7(2)(6) mewn grym ar 7.7.2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(a)**

**I5** A. 7(3)(b)(4)(8)(10) mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/12/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 7.